



Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Lleihau nifer yr oedolion nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
A	Camau Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid	
1	Bydd angen i ni barhau i weithredu chwe elfen y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn gweithredu'r Camau a nodwyd yn yr hunanasesiad o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuentid o gymharu â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, er mwyn cynyddu cyfranogiad a fydd yn cyfrannu at ganlyniadau gwasanaeth gwell o ran ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc sy'n NEET.	Mawrth 2019
B	Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	
1	Byddwn yn darparu elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop <i>Cam Nesa a Chynnydd</i> .	Mawrth 2019
2	Byddwn yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed a darparu cwricwlwm amgen o Ionawr 2019 yn lle'r gwasanaethau a gynigir drwy Brosiect Cynnydd.	Mawrth 2019
3	Byddwn yn datblygu gwasanaethau craidd i gefnogi pobl ifanc (15-25 oed) sy'n profi rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth oherwydd cyflwr cronig. Bydd y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael ei seilio ar yr hyn a ddysgwyd mewn perthynas â'r hyn weithiodd yn ystod rhaglen Cynnydd. (<i>Cam gweithredu rhif 12535</i>)	Mawrth 2020
C	Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin	
1	Byddwn yn gweithredu 20 o argymhellion Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn cyflwyno llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chyrtsiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd-ddyfodiaid i'r sir.	Mawrth 2019
D	Adolygiad o Gwricwlwm Sir Gaerfyrddin	
1	Drwy gyfrwng Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, byddwn yn sicrhau bod yna ddewislen o gyfleoedd galwedigaethol yn cyd-fynd â chwricwlwm addysgol y Cyngor i fynd i'r afael â'r sgiliau lleol ar gyfer byd gwaith a'r llwybrau lleol i waith, yn ogystal â datblygu llwybrau dysgu gyda Choleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. MF5 34 (<i>Hefyd yn Amcan Llesiant 3</i>)	Mawrth 2019
2	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd pellach i gael prentisiaethau yn y Sir. MF5-38	Mawrth 2019
3	Byddwn yn sicrhau bod Cydnerthu Cymunedol, gan gynnwys sicrhau bod gan bobl agored i niwed fynediad cyfartal i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn brif amcan yng nghynllun trawsnewid gwasanaeth dydd Anabledd Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth. (<i>Cam gweithredu rhif 12540</i>)	Medi 2018
E	Mesurau Perfformiad	
1	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (PAM/009) (<i>Hefyd yn Amcan Llesiant 5</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 – 1.4% -27 ymadawyr blwyddyn 11</i>)	1.3%
2	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2) (<i>Hefyd yn Amcan Llesiant 5</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 – 3.0% - 20 ymadawyr blwyddyn 13</i>)	2.8%

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
3	Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34a) <i>(Canlyniad 2017/18 – 72.2%)</i>	64.3%
4	Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34b) <i>(Canlyniad 2017/18 – 64.3%)</i>	57.2%

Mesurau Llwyddiant

Nifer y rhai sy'n gadael nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) Blwyddyn 11 (PAM/009) Blwyddyn 13 (5.1.0.2)